

Aseiad Coedwig Law Cyflym Ffurflen Arolygu

Defnyddiwch y ffurflen yma i:

- **COFNODI** canlyniadau eich arolwg, gan gynnwys cyfeirnodau grid lle bo hynny'n berthnasol, i helpu i fapio nodweddion a rhywogaethau allweddol, a chynllunio rheolaeth. Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i chi nodi nodweddion ar fap safle wrth i chi fynd.
- **DEHONGLI** beth yw ystyr eich canlyniadau drwy gyfrif sgoriau ar gyfer pob adran sy'n rhoi trosolwg i chi o gyflwr presennol eich safle a'i botensial i gynnal cennau a bryoffytau coedwig law.
- **DARGANFOD CYSYLLTIADAU Â CHYFARWYDDYD RHEOLI PENODOL** yn seiliedig ar wahanol senarios yn eich coetir.

Rhoddir cyfarwyddiadau byr i bob adran o'r arolwg isod. Defnyddiwch y Canllawiau Adnabod Rhywogaethau ac edrychwch ar **nodiau cyfarwyddyd yr ACLC** am gyfarwyddiadau manylach a gwybodaeth gefndir.

Unwaith y byddwch wedi llenwi ffurflen yr arolwg, mae cyfarwyddyd rheoli manwl ar gael yn **Cennau a bryoffytau'r goedwig law – pecyn adnoddau i reolwyr coetiroedd**.



Gwnaed yn bosibl gan

**Cronfa
Treftadaeth**

Made possible with

**Heritage
Fund**

Dechrau'r Aseiad yma

Dyddiad		Enw / cyfeirnod y safle	
Arolygwr		Cyfeirnod grid	

1 Cyfansoddiad y coetir

Defnyddiwch raddfa DAFOR i ddangos pa mor niferus yw pob rhywogaeth o goed neu lwyni yn y canopi ac wedyn yn yr isdyfiant. Rh = Rheoli (> 75%), H = Helaeth (50-75%), A = Aml (25-50%), Ach = Achlysurol (10-25%), P = Prin (<10%). Gadewch yn wag am ddim. Gallwch ychwanegu unrhyw rywogaethau nad ydynt wedi'u rhestru yn y rhesi ychwanegol. Wedyn defnyddiwch y tabl 'dehongli cyfansoddiad coed' ar y dudalen nesaf i ddarganfod beth allai hyn ei olygu i'ch coetir a ble i chwilio am argymhellion rheoli.

Rhywogaethau brodorol

Rhywogaeth	Canopi	Isdyfiant
Aethnen		
Bedwen		
Ceiriosen yr adar		
Celynnen		
Collen		
Criafolen		
Derwen		
Draenen ddu		
Draenen wen		
Gwernen		
Helygen		
Llwyfen lydanddail		
Merywen		
Onnen		
Pinwydden yr Alban		

Rhywogaethau estron

Rhywogaeth	Canopi	Isdyfiant
Cegiden orllewinol		
Conwydd eraill (estron)		
Creigafal		
Ffawyddden		
Ffynidwydden Douglas		
<i>Llawrgeiriosen</i>		
<i>Rhododendron ponticum</i>		
Sitca		
Sycamorwydden		

Dehongli cyfansoddiad coetir:

Yn seiliedig ar yr hyn a gofnodwyd gennych uchod, dewiswch UN disgrifiad o'r tabl canopi sy'n disgrifio orau gyfansoddiad canopi ar eich safle, wedyn **UNRHYWDDISGRIFIADAUSY'NBERTHNASOL** o'r tabl isdyfiant. Bydd y rhain yn eich cyfeirio chi at gyfarwyddyd dehongli a rheoli penodol. Byddwch hefyd yn gallu cyfrif eich **sgôr cyfansoddiad coetir**.

CANOPI: dewiswch bob disgrifiad sy'n berthnasol		
Disgrifiad	SGÔR	Cyfarwyddyd rheoli
Rhywogaethau cymysg, er y gall un neu ddwy fod yn fwy helaeth (ond nid gyda ffawydd neu gonwydd estron helaeth)	+2	Amherthnasol
Cyll yw'r canopi yn bennaf	+2	Am gyfarwyddyd penodol ar goedwigoedd cyll edrychwch ar Rheoli clystyrau o gyll .
Mae'r canopi yn un rhywogaeth frodorol yn bennaf (ac eithrio coetiroedd cyll)	+1	Edrychwch ar yr adran ar ddiffyg amrywiaeth y rhywogaethau o goed yma .
Mae ffawydd yn helaeth yn y canopi (dewiswch yr opsiwn hwn hefyd os yw castanwydd pêr yn helaeth)	-1	Edrychwch ar yr adran ar reoli ffawydd yma .
Mae ffawydd yn helaeth yn y canopi (sgoriwch yr opsiwn hwn hefyd os yw castanwydd pêr yn helaeth)	-2	Edrychwch ar yr adran ar reoli ffawydd yma .
Mae conwydd estron yn helaeth yn y canopi.	-2	Edrychwch ar yr adran ar adfer planhigfeydd conwydd i goetir brodorol yma .

ISDYFIANT: dewiswch bob disgrifiad sy'n berthnasol		
Disgrifiad	SGÔR	Cyfarwyddyd rheoli
Isdyfiant tameidiog o lwyni brodorol.	+2	Amherthnasol
Nid oes / ychydig iawn sydd o lwyni / coed isdyfiant brodorol.	-1	Edrychwch ar yr adran ar ddiffyg amrywiaeth y rhywogaethau o goed yma .
Prin yw'r aildyfiant, os o gwbl, o rywogaethau allweddol neu a ddymunir sy'n ffurfio canopi.	-1	Os yw cysgodi'n atal aildyfiant edrychwch ar Strwythur a chyfansoddiad amrywiol y coetir . Aseswch a yw gorbori / brigbori yn broblem yn Adran 5.
Mae isdyfiant trwchus sydd fel prysglwyni mewn manau.	-2	Edrychwch ar yr adran ar aildyfiant gormodol nad oes posibl rhoi sylw iddo gyda phori yma . Os yw'n berthnasol, edrychwch ar reoli rhywogaethau brodorol / estron ymledol yma e.e. ar gyfer aildyfiant ffawydd / sycamorwydd.
Mae rhai rhywogaethau estron ymledol yn bresennol yn yr isdyfiant.	Dim sgôr – bydd hwn yn cael ei sgorio yn Adran 6	Edrychwch ar yr adran ar rywogaethau estronymledol, e.e. <i>Rhododendron</i> , yma .
Rhywogaethau estron ymledol yn aml yn yr isdyfiant.	Dim sgôr – bydd hwn yn cael ei sgorio yn Adran 6	
CYFANSWM Sgôr cyfansoddiad y coetir		

Sgôr cyfansoddiad coetir:

Adiwch eich sgôr ar gyfer y canopi a'r isdyfiant at ei gilydd i weld beth allai hyn ei olygu i ardal eich arolwg.

4	Mae hyn yn dynodi bod y cyfansoddiad presennol yn ffafriol ar gyfer casgliad amrywiol o gennau a bryoffyttau.
1-3	Mae hyn yn dynodi y gallai'r coetir elwa o arallgyfeirio a / neu helpu i sefydlu aildyfiant priodol i annog datblygu casgliad amrywiol o gennau a bryoffyttau.
0	Mae hyn yn dynodi bod gan y coetir broblemau efallai gyda rhywogaethau ymledol neu aildyfiant trwchus y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn osgoi effeithiau negyddol ar gennau a bryoffyttau
<0	Mae hyn yn dynodi nad yw'r cyfansoddiad presennol yn ffafriol i gennau a bryoffyttau a bod nifer o broblemau i fynd i'r afael â hwy.

2 Strwythur y coetir

Ar gyfer pob nodwedd, rhwng gylch o amgylch y sgôr sy'n cyfateb orau i'r disgrifiad o ardal eich arolwg, a darganfod ble i chwilio am gyfarwyddyd rheoli ar gyfer gwahanol senarios. Adiwcw gyfanswm eich sgôr ar gyfer y tabl i weld beth mae hyn yn ei ddweud am strwythur cyffredinol ardal eich arolwg.

Nodwedd	Disgrifiad	Sgôr	Cyfarwyddyd rheoli
Proffil oedran y coetir	Coed ifanc, o oedran cyfartal (h.y. coed a sefydlwyd yn ddiweddar).	-2	Edrychwch ar Darnio cynefinoedd am gyfarwyddyd ar goetir newydd.
	Coed aeddfed, o oedran cyfartal (y rhan fwyaf o'r coed o'r un oedran / maint).	-1	Edrychwch ar yr adran ar ddiffyg amrywiaeth o ran oedran coed yma .
	Coetir o oedran cymysg gyda choed aeddfed ac iau.	+1	Edrychwch ar Coed feteran presennol ac yn y dyfodol am gyfarwyddyd ar sefydlu coed feteran / nodweddion feteran yn y dyfodol.
	Coetir o oedran cymysg gyda choed feteran, aeddfed ac iau.	+2	Mae hyn yn ddymunol, gydag amrywiaeth o gilfachau, ac olyniaeth o goed i ddod yn goed feteran yn y dyfodol.
	Coetir gyda llawer o goed feteran, heb goed aeddfed iau.	+1	Edrychwch ar Coed feteran presennol ac yn y dyfodol am gyfarwyddyd ar sefydlu coed feteran yn y dyfodol.
Gorchudd canopi a gofod agored	Canopi caeedig gyda gofod agored cyfyngedig.	-2	Edrychwch ar Strwythur a chyfansoddiad amrywiol coetir am gyfarwyddyd ar deneuo a chreu gofod agored
	Mosöig o ganopi caeedig ac agored (gyda thua 30% o ardaloedd agored).	+2	Dymunol ar gyfer bryoffytâu o dan orchudd canopi mwy trwchus a chennau mewn ardaloedd sydd wedi'u goleuo'n well.
	Agored iawn ac wedi'i oleuo'n dda e.e., porfa goed.	+2	Mae'r cynefin yma sydd wedi'i oleuo yn dda yn ddymunol ar gyfer llawer o gennau prin a phwysig.
Haen o gae: mieri, eiddew a / neu redyn	Gorchudd helaeth ym mhob rhan	-2	Os oes gorchudd trwchus, edrychwch ar Pori a brigbori (os nad yw pori yn opsiwn edrychwch ar Rheoli coed heb bori a brigbori). Edrychwch hefyd ar adran ar reoli mieri ac eiddew yma .
	Ardaloedd aml o orchudd trwchus	-1	
	Achlysurol: efallai bod clystyrau trwchus ond gwasgaredig	+1	
	Prin: gorchudd prin / darnau ynysig	+2	
Nodwch a yw hyn yn berthnasol i fieri, eiddew a / neu redyn			
Haen o gae: grug, llus a / neu goedfrwyn	Gorchudd trwchus drwyddi draw, yn gorchuddio pren marw / meini mawr ac yn tyfu'n uchel o amgylch gwaelod boncyffion y coed.	-1	Edrychwch ar Pori a brigbori (os nad yw pori yn opsiwn edrychwch ar Rheoli coed heb bori a brigbori).
	Gorchudd tameidiog drwyddo draw a all orchuddio ardaloedd mawr ond heb dagu matiau mwsogl neu fonion y coed.	+2	Gall hyn helpu i gadw lleithder er mwyn i gymunedau bryoffytâu cyfoethog ddatblygu (lle mae tyfiant trwchus yn cael ei reoli gan bori).
	Prin neu absennol.	0	Efallai na fydd hyn yn broblem os nad yw'r rhywogaethau hyn o brysgwydd wedi bod yn bresennol yn y coetir yn hanesyddol.
	Nodwch a yw hyn yn berthnasol i rug, llus a / neu goedfrwyn		
CYFANSWM Sgôr strwythur coetir			

Nodiadau

Sgôr strwythur coetir:

6+	Mae hyn yn dynodi bod strwythur presennol y coetir yn ffafriol ar gyfer casgliad amrywiol o gennau a bryoffytau. DS – mae'n bwysig fodd bynnag ystyried amodau mwy lleol o amgylch nodweddion cynefin pwysig a chymunedau o gennau / bryoffytau o ddiddordeb. Bydd y ddwy adran ganlynol yn canolbwyntio ar y rhain.
4-5	Mae hyn yn dynodi bod strwythur presennol y coetir yn iawn ond y gellid ei wella ar gyfer cennau a bryoffytau. Mae'n bosibl bod y cennau a'r bryoffytau presennol dan fygythiad ac efallai y bydd angen rheoli problemau ar unwaith i atal colledion. Edrychwch ar y cyfarwyddyd rheoli ar gyfer yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis.
1-3	Mae hyn yn dynodi bod angen gwella strwythur presennol y coetir ar gyfer cennau a bryoffytau. Mae'n bosibl bod y cennau a'r bryoffytau presennol dan fygythiad ac efallai y bydd angen rheoli problemau ar unwaith i atal colledion. Edrychwch ar y cyfarwyddyd rheoli ar gyfer yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis.
0	Mae hyn yn dynodi nad yw strwythur presennol y coetir yn ddelfrydol ar gyfer cennau a bryoffytau coedwig law. Mae'n bosibl bod y cennau a'r bryoffytau presennol dan fygythiad ac efallai y bydd angen rheoli problemau ar unwaith i atal colledion. Edrychwch ar y cyfarwyddyd rheoli ar gyfer yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis.
<0	Mae hyn yn dynodi nad yw strwythur presennol y coetir yn ddymunol ar gyfer cennau a bryoffytau coedwig law ac mae'n annhebygol y bydd diddordeb yn bresennol ar hyn o bryd. Edrychwch ar y cyfarwyddyd rheoli ar gyfer yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis.

3 Nodweddion cynefin

- Ticiwch y nodweddion sy'n bresennol a chofnodwch y cyfeirnodau grid (cyfeirnod 6 ffigur canolog ar gyfer nodweddion eang a chyfeiriadau 10 ffigur ar gyfer nodweddion ynysig).
- Cofnodwch unrhyw broblemau rheoli sy'n effeithio ar y nodweddion (e.e. eiddew, mieri, rhywogaethau ymledol, aildyfiant trwchus ac ati).
- Defnyddiwch y golofn nodiadau i gofnodi lleoliadau nodweddion, problemau ac ati.
- Sgoriwch yr helaethrwydd cyffredinol ar gyfer pob un o'r pedwar categori nodwedd (coed feteran, pren marw, is-haenau creigiog a nodweddion gwlyb) o 0 i 3 lle mae 0 = dim, 1 = prin (h.y. mae'r nodweddion yn bresennol ond yn anghyffredin / yn gorchuddio dim ond rhan fechan o'r safle), 2 = aml (h.y. nid yw'r nodweddion yn anghyffredin ond nid ydynt ychwaith yn helaeth iawn), 3 = rheoli (h.y. mae'r nodweddion yn helaeth iawn / gorchuddio llawer o'r safle).

Ar gyfer pob un o'r categorïau nodwedd fe welwch chi ddolenni perthnasol at gyfarwyddyd rheoli. Adiwch gyfanswm eich sgôr ar gyfer y pedwar categori nodwedd i weld beth mae hyn yn ei ddweud am nodweddion cynefin ardal eich arolwg yn gyffredinol.

Categori nodwedd	Disgrifiad nodwedd		Cyfeirnod grid	Unrhyw faterion rheoli sy'n effeithio ar y nodwedd yma	Cyfarwyddyd rheoli
Coed feteran a nodweddion coed feteran (sylwer y gall y nodweddion hyn fod yn bresennol ar goed nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai feteran eto yn ôl eu hoedran)	Hen goed gyda thyllau pydredd mawr / ceudodau / canghennau marw / presenoldeb coed aer.				Edrychwch ar Coed feteran presennol ac yn y dyfodol ar gyfer rheoli coed feteran presennol a recriwtio rhai newydd os cofnodir nodweddion newydd. Os yw'r coed feteran yn cael eu heffeithio gan gysgodi o aildyfiant trwchus / canopi trwchus, edrychwch yma . Os ydynt yn cael eu heffeithio gan eiddew, celyn neu rywogaethau ymledol eraill, edrychwch ar yr adrannau yma .
	Hen goed gyda phren wedi dod i'r golwg				
	Presenoldeb isgrog sych				
	Presenoldeb hen docbrenna hoedran) neu hen stolion prysgoedio				
	Coed iau gyda choed feteran e.e. ceudodau				
	Arall e.e. sudd yn llifo, tyllau pydreff wedi'u llenwi â dŵr. (Cynhwyswch fanylion yn yr adran nodiadau).				
	Presenoldeb hen glystyrau cyll h.y. heb eu rheoli na'u Edrychwch ar Rheoli clystyrau ogyll. prysgoedio				Edrychwch ar Rheoli clystyrau o gyll .

Sgôr coeden feteran (0-3)

Cofnodwch leoliad unrhyw goed feteran neu nodweddion coed feteran. Ar gyfer rhywogaethau eang, mae cyfeirnod grid 6 ffigur canolog ar gyfer y boblogaeth yn ddigonol. Os yw'r rhywogaeth wedi'i chyfyngu i ardal benodol, defnyddiwch gyfeirnod grid 10 ffigur.

Enw'r rhywogaeth	Cyfeirnod grid	Nodiadau

Categori nodwedd	Disgrifiad nodwedd	✓	Nodiadau	Unrhyw faterion rheoli sy'n effeithio ar y nodwedd yma	Cyfarwyddyd rheoli
Pren marw	Pren marw diametr mawr yn gorwedd (> 20 cm)				Os yw'r pren marw yn wasgarog a / neu nad oes unrhyw bren marw yn sefyll / boncyffion yn pydru, edrychwch ar Cadw pren marw . Os yw'r nodweddion wedi gordyfu gydag eiddew, mieri neu rywogaethau ymledol eraill, edrychwch ar yr adrannau yma , ac os ydynt wedi'u heffeithio gan gysgod dwfn ac aildyfiant trwchus, edrychwch yma .
	Pren marw yn sefyll (diametr > 20 cm)				
	Boncyffion coed yn pydru				

Sgôr pren marw (0-3)	
-----------------------------	--

Nodweddion creigiog	Meini mawr				Os yw'r nodweddion wedi gordyfu gydag eiddew, mieri neu rywogaethau ymledol eraill, edrychwch ar yr adrannau yma , ac os ydynt wedi'u heffeithio gan gysgod dwfn ac aildyfiant trwchus, edrychwch yma .
	Wynebau creigiâu				

Sgôr is-haen greigiog (0-3)	
------------------------------------	--

Categori nodwedd	Disgrifiad nodwedd	✓	Nodiadau	Unrhyw faterion rheoli sy'n effeithio ar y nodwedd yma	Cyfarwyddyd rheoli
Nodweddion gwlyb	Sgydau / ardaloedd corisiog				Ceisio cadw gorchudd canopi ar hyd dyfrffyrdd ar gyfer bryoffytâu. Os yw'r nodweddion wedi gordyfu gydag eiddew, mieri neu rywogaethau ymledol eraill, edrychwch ar yr adrannau yma , ac os ydynt wedi'u heffeithio gan aildyfiant trwchus, edrychwch yma .
	Nentydd / afonydd				
	Wynebau creigiau gwlyb				
	Ceunentydd / rhaeadrau				

Scôr nodweddion gwlyb (0-3)	
------------------------------------	--

Sgôr nodweddion cynefin:

6+	Mae hyn yn awgrymu bod gan y coetir amrywiaeth o nodweddion cynefin pwysig ar gyfer cennau a bryoffytâu. Bydd a yw'r safle'n cynnal amrywiaeth o gennau a bryoffytâu yn dibynnu ar a fu parhad yn amodau ffafriol y nodweddion hynny. Bydd goroesiad y diddordeb o ran rhywogaethau yn y dyfodol yn dibynnu ar gynnal amodau addas.
4-5	Mae gan y coetir rai nodweddion cynefin pwysig ar gyfer cennau a bryoffytâu ond mae'r rhain yn gyfyngedig. Mae'n bwysig iawn sicrhau amodau ffafriol, yn enwedig os yw'r nodweddion yn gyfyngedig, oherwydd gallai'r diddordeb o ran cennau a bryoffytâu fod yn ddibynnol ar ychydig o nodweddion ynysig.
<4	Mae'r nodweddion cynefin ar gyfer cennau a bryoffytâu yn gyfyngedig braidd. Ystyriwch gyfleoedd ar gyfer creu nodweddion lle mae hyn yn bosibl e.e. drwy sicrhau coed feteran a chreu cynefinoedd pren marw.

4 Cennau a bryoffytau

Cwblhewch y tabl isod, gan ganolbwyntio ar y gorchudd o gennau ar foncyffion coed a gorchudd o fryoffytau ar lawr y coetir (gan gynnwys y tir, cloddiau, pren marw ar y llawr a nodweddion creigiog). Rhowch gylch o amgylch un sgôr ar gyfer cennau ac un sgôr ar gyfer bryoffytau. Adiwch gyfanswm eich sgôr i weld beth mae hyn yn ei ddweud am y diddordeb presennol o ran cennau a bryoffytau yn ardal eich arolwg. Gallwch ddod o hyd i ble i chwilio am gyfarwyddyd rheoli yn y golofn ar y dde yn y tabl.

	Description	Score	Management
Cennau	Boncyffion a / neu nodweddion creigiog yn bennaf heb gennau (moel neu wedi'u gorchuddio ag eiddew / mwsogl).	-1	Os yw'r gorchudd o gennau / bryoffytau yn gyfyngedig, mae'n bwysig sefydlu pam. Os oes cysgod trwchus o ganopi uwchben, edrychwch ar Strwythur a chyfansoddiad amrywiol y coetir . Os ydynt yn cael eu cysgodi a'u tagu gan lwyn trwchus / haen o gae, edrychwch ar Pori a brigbori . Os oes aildyfiant trwchus iawn, edrychwch ar Aildyfiant gormodol na ellir rhoi sylw iddogyda phori . Os yw rhywogaethau brodorol / estron yn achosi cysgodi / tagu, edrychwch ar yr adrannau perthnasol yma .
	Nifer bach o goed a / neu nodweddion creigiog gyda chennau ar y boncyffion – mae cennau ar rai boncyffion ond nid oes cennau helaeth.	+1	
	Nifer mwy o goed a / neu nodweddion creigiog gyda chennau ar y boncyffion ond yn cael eu rheoli gan ystod fechan o rywogaethau.	+2	
	Nifer mwy o goed a / neu nodweddion creigiog gyda chennau ar y boncyffion gan gynnwys rhai â thyfiant toreithiog o gennau deiliog a phrysgoediog (llun A).	+3	
Bryoffytau	Ychydig iawn / dim gorchudd o fryoffytau i'w weld.	-1	
	Gorchudd tameidiog o fryoffytau i'w weld ond yn cael ei reoli gan un neu ddwy rywogaeth.	-1	
	Mae ardaloedd mwy o orchudd o fryoffytau i'w gweld – e.e. yn carpedu'r ddaear a'r nodweddion creigiog, ond mae'r rhan fwyaf o'r biomas yn gyfyngedig i ryw 5 rhywogaeth.	+1	
	Mae gorchudd darniog o fryoffytau i'w weld gydag amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys llysiâu'r afu brown ar nodweddion creigiog a boncyffion +/- rhedynach.	+2	
	Mae gorchudd toreithiog o fryoffytau i'w weld gydag amrywiaeth o rywogaethau gan gynnwys llysiâu'r afu brown ar nodweddion creigiog a boncyffion +/- rhedynach.	+3	
CYFANSWM Sgôr cennau a bryoffytau			

Sgôr cennau a bryoffytau:

6+	Mae hyn yn awgrymu safle lle mae'r amodau'n ffafriol i amrywiaeth o gymunedau o gennau a bryoffytau ffynnu. Sylwch ei bod yn bwysig ystyried y sgôr yma ochr yn ochr â'r adrannau eraill yn yr ACLC – nid yw'r diddordeb presennol o reidrwydd yn golygu bod y safle yn y cyflwr gorau posibl ar hyn o bryd, gan na fydd newid negyddol mewn amodau yn achosi dirywiad mewn diddordeb rhywogaethau ar unwaith (h.y. mae oedi gyda'r effaith).
4-5	Mae hyn yn awgrymu safle lle mae'r amodau'n addas ar gyfer rhai rhywogaethau a / neu gymunedau, ond nid ar gyfer eraill, neu lle mae pocedi bychain efallai o ddiddordeb yn gysylltiedig ag ardaloedd lle mae'r amodau yn fwyaf ffafriol / wedi bod yn fwyaf ffafriol yn hanesyddol. Gallai'r rheolaeth ddibynnu ar nodweddion safle penodol fel lle gall bryoffytau fod yn nodwedd hysbysadwy ond nad yw cennau yn nodwedd hysbysadwy ac i'r gwrthwyneb. Ni ddylai unrhyw reolaeth achosi niwed i'r brif nodwedd o ddiddordeb.
3	Mae hyn yn awgrymu safle lle mae'r amodau'n addas ar gyfer un math o gymuned o fryoffyt / cen yn unig ond nid ar gyfer eraill. Mae'n bosibl y bydd diddordeb bryoffyt / cen ynysig yn gysylltiedig ag ardal lle mae'r amodau yn / wedi bod yn fwy ffafriol yn hanesyddol. Gallai rheolaeth ddibynnu ar nodweddion safle penodol fel lle gall bryoffytau fod yn nodwedd hysbysadwy ond nad yw cennau yn nodwedd hysbysadwy ac i'r gwrthwyneb. Ni ddylai unrhyw reolaeth achosi niwed i'r brif nodwedd o ddiddordeb.
<3	Mae hyn yn awgrymu nad yw'r safle o werth uchel ar hyn o bryd ar gyfer cennau na bryoffytau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn diystyru'r posibilrwydd o ddiddordeb ynysig neu weddillol. Yn hytrach, mae'r sgôr yn awgrymu nad yw'r sefyllfa gyffredinol yn y coetir yn ffafriol i dyfiant helaeth o gennau neu fryoffytau.

5 Pori a brigbori

Gall fod rhesymau pam y gallai lefelau uchel, cymedrol neu isel o bori / brigbori fod yn ddymunol, yn dibynnu ar yr amcanion ar gyfer rheoli ardal benodol o goetir. Defnyddiwch y tabl i asesu'r lefelau pori / brigbori yn ardal eich arolwg. Edrychwch ar bob nodwedd coetir yn eu tro: aildyfiant coed, egin ifanc ar gyll, haen cae, bryoffytâu a meini mawr. Wedyn ystyriwch yr holl ffactorau hyn gyda'i gilydd i ddod i sefydlu a yw'r lefelau pori / brigbori yn uchel, cymedrol neu isel. Mae hwn yn asesiad cyflym o lefel pori / brigbori a gall y categorïau a ddefnyddir yma fod yn wahanol i rai asesiadau eraill. I gael asesiad manylach o'r effaith pori / brigbori, rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r Asesiad Effaith Llysystyddion y Coetir (WHIA) ochr yn ochr â'r tabl hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd lle mai ceirw yw'r prif lysesyddion (e.e. fel yng nghoedwig law yr Alban).

Nodwedd	Dangosyddion pwysau pori/brigbori uchel:	Dangosyddion pwysau pori/brigbori cymedrol:	Dangosyddion pwysau pori/brigbori isel:
Aildyfiant coed	Ychydig iawn / dim aildyfiant coed. Dim aildyfiant o gwbl o rywogaethau mwy derbyniol (e.e. derw, criafol, cyll, ynn helyg a chelyn). Sylwer: gall diffyg aildyfiant ddigwydd hefyd oherwydd ffactorau ar wahân i bori / brigbori.	Mae aildyfiant coed achlysurol gan fod egin goed o rywogaethau o goed annymunol a blasus yn sefydlu'n llwyddiannus. Mae rhai egin goed yn dangos arwyddion eu bod wedi cael eu brigbori ond mae eraill wedi dianc i dyfu'n goed ifanc.	Mae rhywogaethau coed annymunol a blasus yn sefydlu'n llwyddiannus. Gall hyn ddatblygu i fod yn drwchus iawn yn absenoldeb pwysau pori / brigbori. Mae arwyddion brigbori'n brin iawn neu'n absennol.
Egin ifanc ar gyll	Nid oes unrhyw egin ifanc yn dianc o fonion y llwyni cyll.	Mae rhai eginblanhigion ifanc yn dianc rhag brigbori o fôn llwyni cyll bob blwyddyn, sy'n sicrhau bod olyniaeth o goesynnau o wahanol oedrannau a chynffin parhaol i wahanol rywogaethau o gennau sefydlu.	Mae llawer o egin yn dianc o fôn cyll, gyda choesynnau hŷn yn prinhaus, yn marw neu wedi'u cysgodi'n drwm iawn.
Haen cae	Haen y cae yn cael ei reoli gan laswelltau.	Mae'r gorchudd o fieri, rhedyn a phlanhigion fasgwlaidd eraill yn brin i achlysurol, wedi'i gynnwys mewn clytiau ar wahân gan frigbori.	Haen cae bras sy'n cael ei reoli gan ddim ond ychydig o rywogaethau o blanhigion fasgwlaidd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ardaloedd agored o dan orchudd unffurf y prif rywogaethau haen cae. DS mewn sefyllfaoedd cysgodol gall mieri a rhedyn fod yn absennol ond gall eiddew fod yn aml.
Bryoffytâu	Bryoffytâu sy'n rheoli'r tir gyda gorchudd cyfyngedig iawn o blanhigion fasgwlaidd (ac eithrio rhedyn).	Mae bryoffytâu'n doreithiog o hyd ar y ddaear ond mae rhywfaint o dyfiant planhigion fasgwlaidd yma ac acw hefyd (ar wahân i ddim ond rhedyn).	Mae tyfiant planhigion fasgwlaidd fel mieri, coedfrwyn a grug, er enghraifft, ac mae eu sbwriel dail yn tagu'r bryoffytâu ar y ddaear.
Meini mawr	Llawer o feini mawr wedi'u crafu'n noeth o fatiau mwsogl olyniaeth hwyr (e.e. <i>mwsoglau plewrocarpaidd fel Rhytidiadelphus loreus, Loeskeobryum brevirostre a Hylocomium splendens</i>).	Mae gan feini mawr gymysgedd o gymunedau bryoffytâu olyniaeth gynnar a hwyr. Mae cymunedau olyniaeth gynnar o fryoffytâu ar feini llai yn cael eu cynnal (e.e. cwpanllysiau brown fel <i>Scapania gracilis</i> gyda neu heb redynach a rhywogaethau sy'n sefydlu'n gynnar ar greigiau e.e. mewn llwybrau ceirw/anifeiliaid).	Mae meini bach yn cael eu tagu gan fatiau mwsogl olyniaeth hwyr a'u poblogi gan blanhigion fasgwlaidd, e.e. eiddew, llus, grug, mieri ac ati, gyda chymunedau olyniaeth gynnar yn absennol.
Sgôr Pori (cylchwrch un opsiwn)	-3	+3	-3

Sgôr pori / brigbori:

Yn seiliedig ar eich penderfyniadau uchod Uchel, Canolig neu Isel ac ar eich amcanion rheoli, rhowch sgôr yn unol â hynny os gwelwch yn dda.

-3	Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd coetir mae lefelau uchel o bori / brigbori yn annymunol. Byddai gostyngiad yn niferoedd y ceirw a / neu'r stoc dros nifer o flynyddoedd yn arwain at ddatblygu gwell ecosystem coetir a fyddai'n arwain, yn y pen draw, at rywogaethau coed blasus yn dychwelyd. Mae'r dull hwn hefyd yn golygu na fyddem yn cael yr aildyfiant trwchus o goed problemus a'r haenen fras o gae sy'n aml yn digwydd pan fydd pori / brigbori yn dod i ben yn sydyn oherwydd ffens. Byddai llysysyddion yn parhau bob amser yn rhan o ecosystem coetir deinamig ond mewn niferoedd llawer is.
+3	Mae'r lefelau pori / brigbori yn gymedrol (fel y diffinnir yma) ac yn ddymunol.
0	Mae lefelau isel o bori / brigbori (fel y'u diffinnir yma) yn annymunol lle gallai bryoffytai a chennau'r goedwig law gael eu bygwth gan haen gae fras a / neu gysgodi oherwydd aildyfiant trwchus o egin-goed o amgylch coed aeddfed. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid gweithredu pori / brigbori , ond ar safleoedd lle nad yw hyn yn bosibl edrychwch ar Rheoli coed heb bori a brigbori . Os yw'r aildyfiant yn drwchus iawn edrychwch ar Adfywio gormodol nad oes posib rhoi sylw iddo gyda phori .

6 Rhywogaethau ymledol

Rhywogaethau estron ymledol:

Ar gyfer pob rhywogaeth estron ymledol, ticiwch y bocs priodol i gofnodi pa mor helaeth ydyw yn ardal eich arolwg. Mae'n bwysig cofnodi lleoliad y rhywogaethau ymledol mewn perthynas ag unrhyw rywogaethau neu nodweddion cynefin o ddiddordeb a gofnodwyd yn Adrannau 3 a 4, fel eich bod yn gallu defnyddio hyn i gynllunio a blaenoriaethu camau rheoli. *Sylwch, ar gyfer conwydd, mae'r adran hon yn ymwneud ag aildyfu yn unig. Mae adfer coed conwyddsydd wedi sefydlu ac adfer PAWS yn cael sylw yn Adran 1.* Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, adiwch eich sgôr yn seiliedig ar raddfa gyffredinol y rhywogaethau estron ymledol.

Enw'r rhywogaeth	Absennol	Mân ac ynysig	Lleol ar lefelau isel	Lefelau isel ym mhob man	Lleol ar lefelau uchel	Lefelau uchel ym mhob man	Nodiadau ar leoliad problemau mewn perthynas â rhywogaeth neu nodweddion o ddiddordeb
<i>Rhododendron</i>							
Aildyfiant conwydd estron							
Aildyfiant ffawydd							
Aildyfiant sycamorwydd							
Llawrgeiriosen							
Ffromlys chwarennog							
Creigafal							
Gweunlwyni sialon							
Rheonllys mawr							
Pidyn-y-gog							

Dewiswch sgôr, gan ystyried graddfa gyffredinol yr INNS ar draws y safle, a chofnodwch y sgôr yn y bocs isod:

Dim rhywogaethau estron ymledol	Rhywogaethau estron ymledol mân ac ynysig	Rhywogaethau estron ymledol yn lleol ar lefelau isel	Rhywogaethau estron ymledol ar lefelau isel ym mhob man	Rhywogaethau estron ymledol yn lleol ar lefelau uchel	Rhywogaethau estron ymledol ar lefelau uchel ym mhob man
0	-1	-2	-3	-4	-5

Sgôr INNS	
------------------	--

Sgôr rhywogaeth estron ymledol:

0	Dim angen ymyriadau d
-1 to -2	Angen ymyriadau ar unwaith i ddileu ac atal ymlediad. Dylai'r blaenoriaethu fod yn seiliedig ar agoswydd at rywogaethau a nodweddion cynefin pwysig, gan gofio ei bod yn haws delio ag INNS cyn iddynt ddod yn helaeth.
-3 to -5	Angen ymyriadau i ddileu INNS, atal ymlediad pellach ac adfer amodau wedi'u goleuo'n well ar gyfer unrhyw ddiddordeb sy'n weddill yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Dylai'r blaenoriaethu fod yn seiliedig ar agoswydd at rywogaethau a nodweddion cynefin pwysig.

Edrychwch ar yr adrannau perthnasol yn **Rheoli rhywogaethau brodorol / estron ymledol** am gyfarwyddyd manylach.

Rhywogaethau ymledol brodorol:

Ar gyfer pob problem a ddisgrifir, ticiwch y bocs priodol i gofnodi pa mor helaeth ydyw yn ardal eich arohwg. Mae'n bwysig cofnodi lleoliad y problemau mewn perthynas ag unrhyw rywogaethau neu nodweddion cynefin o ddiddordeb a gofnodwyd yn Adrannau 3 a 4, fel eich bod yn gallu defnyddio hyn i gynllunio a blaenoriaethu camau rheoli. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, ewch ati i gyfrif eich sgôr yn seiliedig ar raddfa gyffredinol y problemau hyn.

Enw'r rhywogaeth	Absennoi	Mân ac ynysig	Lleol ar lefelau isel	Lefelau isel ym mhob man	Lleol ar lefelau uchel	Lefelau uchel ym mhob man	Nodiadau ar leoliad problemau mewn perthynas â rhywogaeth neu nodweddion o ddiddordeb
Celyn trwchus							
Eiddew ar goed							

Dewiswch sgôr, gan ystyried graddfa gyffredinol y problemau gyda rhywogaethau ymledol brodorol neu agos at fod yn frodorol ar draws y safle, a chofnodwch y sgôr yn y bocs isod:

Dim rhywogaethau brodorol ymledol	Rhywogaethau brodorol ymledol mân ac ynysig	Rhywogaethau brodorol ymledol yn lleol ar lefelau isel	Rhywogaethau brodorol ymledol ar lefelau isel ym mhob man	Rhywogaethau brodorol ymledol yn lleol ar lefelau uchel	Rhywogaethau brodorol ymledol ar lefelau uchel ym mhob man
0	-1	-2	-3	-4	-5

Sgôr rhywogaethau ymledol brodorol	
---	--

Sgôr rhywogaethau ymledol brodorol:

0	Dim angen ymyriadau
-1 to -2	Efallai y bydd angen ymyriadau ar unwaith os yw wedi'i leoli'n agos at rywogaethau a nodweddion cyne-fin pwysig.
-3 to -5	Angen ymyriadau i ddileu INNS, atal ymlediad pellach ac adfer amodau wedi'u goleuo'n well ar gyfer unrhyw ddi-ddordeb sy'n weddill yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Dylai'r blaenoriaethu fod yn seiliedig ar agosrwydd at rywogaethau a nodweddion cynefin pwysig.

Edrychwch ar yr adrannau perthnasol yn **Rheoli rhywogaethau brodorol / estron ymledol** am gyfarwyddyd manylach.

7 Clefyd coedynn

Defnyddiwch y ddau dabl canlynol i gyfrif lefel y risg a lefel yr achosion ar gyfer eich safle. Lluoswch y rhain i gyfrif sgôr bygythiad. Bydd hyn yn rhoi syniad i chi o i ba raddau mae'r clefyd coed ynn yn broblem i gennau ar eich safle ar hyn o bryd, a'r brys i roi mesurau lliniaru ar waith.

Risg: Rhowch gylch o amgylch y lefel risg yn seiliedig ar ba mor bwysig yw ynn i gennau ar eich safle.

Disgrifiad	Disgrifiad risg	Lefel risg	Argymhellion rheoli allweddol
Mae'r safle'n cael ei reoli gan rywogaethau eraill o goed, gydag ynn yn absennol neu'n brin.	Risg gyfyngedig	0	Annhebygol o fod yn broblem fawr
Mae ynn yn elfen ond gyda digon o goed eraill yn bresennol a'r diddordeb o ran cennau wedi ymledu ar draws amrywiaeth o rywogaethau o goed.	Risg is	-1	Efallai y bydd angen rhywfaint o gynllunio ar gyfer hyn. Hyd yn oed lle mae ynn yn elfen lai o'r goedwig, bydd yn bwysig o hyd asesu pa rywogaethau sydd ar ynn ac a ydynt yn bodoli ar rywogaethau eraill. Os yw'r diddordeb o ran cennau ar ynn yn unig, neu os mai'r ynn sydd â'r enghreifftiau gorau o'r diddordeb hwnnw, rhaid gweithredu cynllun lliniaru.
Mae ynn yn cynnal rhywogaethau pwysig o gennau, ond mae rhywogaethau brodorol eraill yn bresennol hefyd, yn enwedig derw, helyg, cyll a chriafol.	Risg uchel	-2	Tebygol o fod yn broblem y bydd angen cynllunio ar ei chyfer e.e. ystyried rhywogaethau 'amgen' o goed, edrychwch ar Clefydau a phlâu coed .
Ynn sy'n rheoli'r safle, gyda'r diddordeb mwyaf o ran cennau ar goed ynn.	Risg uchel iawn	-3	Tebygol o fod yn broblem fawr y bydd angen cynllunio ar ei chyfer e.e. ystyried rhywogaethau 'amgen' o goed ac, o bosibl, trawsleoli rhywogaethau, edrychwch ar Clefydau a phlâu coed

Lefelau'r clefyd: cylchwch lefelau'r clefyd yn seiliedig ar faint o glefyd coed ynn sydd ar eich safle.

DAFOR	Lefel y clefyd
Prin	1
Achlysurol	2
Aml	3
Helaeth	4
Rheoli	5

Sgôr bygythiad: cyfrif drwy luosi lefel y risg a lefel y clefyd.

Lefel y risg		Lefel y clefyd		Sgôr bygythiad clefyd coed ynn
	X		=	

Sgôr bygythiad clefyd coed ynn

-6 neu is	Pryder ar unwaith – mae'r onnen yn cael ei nodi fel coeden bwysig ar gyfer cennau ar y safle, ac mae'r clefyd coed ynn wedi sefydlu. Dylid gweithredu mesurau lliniaru ar unwaith.
-4 i -5	Os yw'r safle'n bwysig ar gyfer coed ynn ond bod y clefyd yn cael ei gofnodi fel prin neu achlysurol, dylid parhau i roi mesurau lliniaru ar waith ar fyrder er mwyn osgoi colledion posibl.
0 i -3	Os mai ynn sy'n rheoli'r safle ond bod clefyd y coed ynn yn brin, neu os yw ynn yn brin ar y safle neu ddim yn bwysig i gennau, mae llai o risg uniongyrchol o safbwynt cennau. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mesurau lliniaru o hyd.

Rheolaeth:

Os nodir bod coed ynn yn cynnal diddordeb pwysig o ran cennau ar eich safle, mae'n bwysig ystyried mesurau lliniaru. Edrychwch ar **Clefyd coed ynn** ar gyfer argymhellion manwl. Un ystyriaeth bwysig fydd edrych ar ba rywogaethau amgen o goed sydd ar gael i chi a allai gynnal yr un diddordeb o ran cennau. Bydd yr asesiad DAFOR a wnaed yn Adran 1 yn eich helpu i benderfynu ynghylch hyn.

Cynllun Rheoli	Sgôr	
Os ydych chi'n cael sgôr o -1 neu is, ydych chi'n gweithredu cynllun i liniaru'r effeithiau?	Ydw	0
	Nac ydw	1

Sgôr y Bygythiad Terfynol: cyfrifwch drwy luosi'r sgôr o'r cynllun rheoli gyda'r 'sgôr bygythiad clefyd y coed ynn' blaenorol.

Sgor bygythiad terfynol clefyd y coed ynn	
--	--

Sgôr ACLC Gyffredinol

Adiwch eich sgôr o Adrannau 1 i 7 i gael eich sgôr ACLC gyffredinol a'i nodi yma:

Beth mae hyn yn ei ddynodi?

25+	Da iawn	Mae'n awgrymu safle sydd mewn cyflwr da iawn ar hyn o bryd i gynnal amrywiaeth o gennau a bryoffytâu coedwig law dymherus. Mae'n bosibl y bydd problemau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd, a dylid canolbwyntio ar yr amodau o amgylch nodweddion cynefin a rhywogaethau pwysig, er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn ffafriol.
15-24	Da	Mae'n awgrymu safle sydd mewn cyflwr da ar hyn o bryd i gynnal rhai cennau a bryoffytâu coedwig law dymherus. Fodd bynnag, mae agweddau y gellid eu gwella ac efallai y bydd nifer o broblemau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy.
5-14	Gweddol	Mae'n awgrymu safle sydd â'r potensial i gynnal cennau a bryoffytâu coedwig law dymherus ond nid yw'r cyflwr presennol ar ei orau. Mae amrywiaeth o broblemau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys ailstrwythuro fwy na thebyg, addasiadau pori a rheoli rhywogaethau ymledol.
<5	Gwael	Mae'n awgrymu safle nad yw mewn cyflwr da ar hyn o bryd i gynnal cennau a bryoffytâu coedwig law dymherus. Mae amrywiaeth o broblemau rheoli cymhleth a helaeth y mae angen mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys ailstrwythuro sylweddol fwy na thebyg, addasiadau pori a rheoli rhywogaethau ymledol.

8 Nodiadau

Defnyddiwch y gofod canlynol ar gyfer nodiadau rhydd yr hoffech eu cofnodi e.e. ar gyfer cofnodi adar neu dail a welwyd.

Plantlife

Plantlife

Brewery House
36 Milford Street
Salisbury
Wiltshire SP1 2AP
01722 342730
enquiries@plantlife.org.uk

plantlife.org.uk

Mae Plantlife yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant, Cwmni Rhif 3166339. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, Rhif Elusen 1059559. Cofrestrwyd yn yr Alban, Rhif Elusen. SCO38951.

©Plantlife, Mawrth
2024 Dylunio:
evansgraphic.co.uk



Gwnaed yn bosibl gan

**Cronfa
Treftadaeth**

Made possible with

**Heritage
Fund**

Ni yw Plantlife

Ers dros 30 mlynedd, mae gan Plantlife un ddefnydd – achub a dathlu blodau gwyllt, planhigion a ffyngau. Maent yn cynnal ein holl fywyd gwyllt ac mae eu lliw a'u cymeriad yn goleuo ein tirweddau. Ond heb ein helpni, mae'r dreftadaeth naturiol amhrisiadwy hon mewn perygl o gael eicholli.

O lecynau agored ein gwarchodfeydd natur i goridorau'r llywodraeth, rydym yn gweithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol i godi eu proffil, dathlu eu harddwch a diogelu eu dyfodol.

Ymunwch â ni i fwynhau'r gorau sydd gan fyd natur i'w gynnig

Am fyd sydd â chyfoeth o blanhigion

